**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

John Griffiths
Gweinidog yr Amgylchedd a
Datblygu Cynaliadwy
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

26 Ebrill 2012

Annwyl Weinidog

**CLA124 - The Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012 (Saesneg yn Unig)**

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn trafod yr Offeryn Statudol uchod yn ei gyfarfod ar 23 Ebrill 2012 a chytunwyd y dylwn ddwyn i'ch sylw adroddiad y Pwyllgor ar rinweddau'r Offeryn, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 21.3.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Offeryn hwn ar y sail "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad" (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ebrill 2012, ac mae wedi'i atodi er gwybodaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth yw eich ymateb.

Yn ogystal, nododd y Pwyllgor y byddai'r Rheoliadau yn caniatáu i awdurdodau lleol godi tâl am gasglu a gwaredu gwastraff o eiddo annomestig (gyda rhai eithriadau). Ar hyn o bryd, dim ond am gasglu gwastraff y codir tâl. A wnewch chi egluro pam fod y Rheoliadau'n dilyn y weithdrefn negyddol yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol yn yr achos hwn er eu bod nhw'n cyflwyno math newydd o dâl.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8154
E-bost / Email: olga.lewis@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Rwy'n anfon copi o'r adroddiad hwn at y Prif Weinidog er gwybodaeth, ac rwyf hefyd wedi gwneud trefniadau i ddwyn yr adroddiad a'r llythyr hwn i sylw Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir

**David Melding AC**
Cadeirydd